## Y Pwyllgor Menter a Dysgu
**EL(3) 21-08 (p3) : 24 Medi 2008**

**GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.**

**LCOS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.**

*Drafft, at ddibenion ymgynghori, o Orchymyn i'w osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig o dan adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad a dau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig.*

OFFERYNNAU STATUDOL DRAFFT

# 2009 Rhif

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

# DATGANOLI, CYMRU

# Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llwybrau Didraffig) 2009

*Wedi'i wneud - - - -* ***

*Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1*

Yn Llys Palas Buckingham, y *** dydd o *** 2009

Yn bresennol

Ei Hardderchocaf Fawrhydi y Frenhines yn ei Chyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[(a)] mae drafft o'r Gorchymyn hwn wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig ac wedi'i gymeradwyo ganddynt drwy benderfyniad.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 95(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, drwy ei Chyfrin Gyngor a chyda'u cyngor, orchymyn fel a ganlyn:-

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llwybrau Didraffig) 2009 a daw i rym drannoeth y diwrnod y caiff ei wneud.

---
[(a)] 2006 (p.32)

**Diwygiadau i Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**

**2.**—(1) Diwygir Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn unol â'r erthygl hon.

(2) Ym maes 10 (priffyrdd a thrafnidiaeth), ar ôl mater 10.x mewnosoder—

"Mater 10.y

Darpariaeth yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau priffyrdd yng Nghymru mewn perthynas â datblygu a chynnal rhwydweithiau o briffyrdd i'w defnyddio gan ddefnyddwyr heblaw cerbydau modur."

Clerc y Cyfrin Gyngor

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Effaith y Gorchymyn yw estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cyfreithiau newydd ar gyfer Cymru drwy Fesur o dan adran 93 o Ddeddf 2006.

Mae'r diwygiad yn ymwneud â maes 10 (priffyrdd a thrafnidiaeth) yn Rhan 1 o Atodlen 5. Mae erthygl 2(2) yn mewnosod mater 10.y [mae'r rhif i'w fewnosod yn nes ymlaen] sy'n ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gynnwys datblygu a chynnal llwybrau didraffig.

Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol estynedig hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn dod o dan y cyfyngiadau cyffredinol sy'n gymwys wrth arfer cymhwysedd o'r fath yn rhinwedd Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.